



## RHAGARWEINIAD

Mae gan Gymru lawer o fanteision o ran cynhyrchu llyisiau ar raddfa weddol eang, megis digon o law, gaeafau tyner a chnydau'n aeddfedu'n araf yn yr hafau nad ydynt yn rhy boeth. Trwy ddewis cnydau a systemau tyfu priodol gall ffermwyr elwa ar y manteision hyn a manteisio trwy ddechrau cynhyrchu llyisiau. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod maint y farchnad mewn ffrwythau ffres, llyisiau a thatws bron yn 500,000 tunnell gyda gwerth o £191 miliwn yn uniongyrchol i'r ffermwyr. Tatws yw 10% o'r cyfanswm hwn, gyda llyisiau'n 44% a ffrwythau'n 46%. Amcangyfrifir bod ffrwythau a llyisiau a dyfwyd yng Nghymru tua 20% o gyfanswm y farchnad Gymreig ac mae'r galw am gynnyrch wedi ei dyfu'n lleol yn cynyddu.

## TIR A PHRIDDOEDD

Mae gan lysiau ofynion mwy neilltuol na'r rhan fwyaf o gnydau amaethyddol fel glaswellt grawnfwydydd. Dim ond lle mae'r tir a'r pridd yn addas y mae amrywiaethu i gynhyrchu llyisiau yn debygol o lwyddo. Y cam cyntaf hanfodol yw gwneud dadansoddiad o'r pridd ac asesu addasrwydd y tir.

## MATHAU

Bydd angen dewis mathau o gnydau a fydd yn addas ar gyfer y system amaethu ar y fferm, ac sy'n addas hefyd ar gyfer pridd a thywydd lleol.

## SYSTEMAU

- Mae'n bwysig gweithio allan y system gynhyrchu a marchnata fel mater o flaenoriaeth. Dylid gweld beth yw problemau fel plâu ac afiechydon a chynllunio dulliau i'w rheoli.
- Mae cyngor arbenigol a thechnegol ar systemau tyfu confensiynol ac organig ar gael gan CALU a thrwy Farming Connect a'r Organic Conversion Information Service.

## PEIRIANNAU AC OFFER

Mae peiriannau arbenigol ar gael ar gyfer drilio, trawsblannu, cynaeafu a chompostio. Mae angen systemau dyfrhau ar gyfer llawer o gnydau maes, megis cnydau bresych a saladau. Bydd y mecaneiddio fydd ei angen yn dibynnu ar faint busnes y fferm. Gall ymuno â Chylchoedd Rhannu Peiriannau ddod dros yr angen i fuddsoddi mewn offer drud.

## LLAFUR

Hyd yn oed gyda pheiriannau gall cynhyrchu llyisiau alw am lawer o lafur. Mae angen rheolaeth dda a gweithlu wedi eu hyfforddi i gynhyrchu a chynaeafu cnydau o safon uchel. Mae angen cael hyd i weithwyr cyn dechrau cynhyrchu llyisiau – gall cynaeafu cnydau maes barhau am fisoedd lawer ac mae'n rhaid cael llafur, offer a chludiant digonol pan fydd angen hynny.

## ENILLION ARIANNOL

Mae cynnyrch, prisiau a chostau'n tueddu i amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae gorsymiau gros yr hectar yn amrywio a dylid ystyried ffigurau fel arweiniad cyffredinol yn unig.

**Tabl 1: Cynnyrch a gorsymiau gros enghreifftiol ar gyfer amrywiaeth o lysiau maes**

	Moron	Nionod	Cabaets	Calabrese	Pannas	Cennin
<b>Cynnyrch (tunnel/ha)</b>	52.5	35.0	32.5	9.5	25.0	20.0
<b>Pris net (£/tunnel)</b>	120	100	325	525	340	600
<b>Gorswm Gros (£/ha)</b>	1775	1225	2750	835	4550	3375

Wrth amrywiaethu i gynhyrchu llyisiau mae'n bwysig cofio hefyd y bydd unrhyw dir pori a gaiff ei neilltuo i dyfu llyisiau ar ffermydd sy'n cadw da byw yn colli'r hawl i gael arian o'r Cynllun Taliad Sengl.

## MARCHNATA

- Cyn dechrau tyfu cnwd mae'n bwysig iawn gweld a oes marchnad iddo.
- Mae darparu llyisiau i'r farchnad yn waith arbenigol a thechnegol. Mae cwmnïau arbenigol yn pecynnu llyisiau ar gyfer archfarchnadoedd.

- Yng Nghaerdydd y mae'r unig farchnad lysiau gyfanwerthol yng Nghymru, ond mae yna tua 70 o gyfanwerthwyr eilaidd.
- Mae llawer o gynhyrchwyr ar raddfa fechan yn gwerthu eu cynnyrch yn uniongyrchol drwy Farchnadoedd Ffermwyr neu gynlluniau bocsys.
- Mae gan arlywyr a'r sector cyhoeddus ddi-ddordeb cynyddol mewn prynu llysiau wedi eu tyfu'n lleol.

## AFIECHYDON AR GNYDAU

Mae afiechydon ar gnydau'n deillio o ficro-organeddau pathogenaidd sy'n ymosod ar y planhigyn.

Afiechydon ffwngaid yw'r rhai mwyaf cyffredin ond mae bacteria a firsau hefyd yn bwysig. Mae rheoli afiechydon yn cynnwys dulliau atal megis dewis safleoedd addas, gofalu'n dda am y cnwd, cadw at safonau hylendid a glanweithdra uchel, cael gwared ar ffynonellau afiechyd lle bo modd a defnyddio amrywiaethau gwydn. Lle mae afiechydon yn digwydd, er gwaethaf dulliau ataliol, gellir defnyddio biosidau, rheolyddion biolegol, symbylyddion a chyflyrwyr planhigion i'w trin. Mae diagnosis cywir yn bwysig gan ei fod yn dangos beth yw achos y broblem a pham y digwyddodd gobeithio.

Mae malltod a achosir gan *Phytophthora infestans* yn broblem fawr ac mae arbrofion CALU gyda mathau o datws sy'n gwrthsefyll malltod, a dulliau eraill o reoli malltod, yn cael eu cynnal ar nifer o safleoedd yng Nghymru. Mae mapio malltod yn un o wasanaethau'r British Potato Council ac mae'n galluogi'r diwydiant i ddilyn hynt achosion drwy gydol y tymor. Cyswllt: <http://www.potato.org.uk/blight>

### Cnydau llysiau a'u prif broblemau afiechydon

Brasicas	Gwraidd clap
	Llwydni blewog
	Smotiau cylchog
Ffa	Smotiau dail tywyll
	Y gawod goch
Moron	Alternaria
Cennin	Smotiau ceudod
	Y gawod goch
Letys	Llwydni blewog
	Llwydni llwyd
Nionod	Llwydni blewog
	Pydredd gwddf
	Ceinioglys
Tatws	Malltod hwyr
	Clafr cyffredin
	Y clwy du
	Cen du
Pys	Spraing
	Malltod (tatws)
	Y gawod goch

## PLÂU CNYDAU

Ar ryw gyfnod neu'i gilydd yn ystod eu cylch bywyd gall plâu pryfed ymosod ar y rhan fwyaf o lysiau a'u difrodi. Gall canlyniad ymosodiadau o'r fath amrywio o ychydig ddfrod i ladd y planhigion yn gyfan gwbl - mae'r ddau yn achosi llai o gynnyrch. Mae plâu pryfed yn bwyta amrywiaeth o gnydau ac yn atgenneddu arnynt. Mewn rhai achosion mae'r amrediad hwn yn gyfyng iawn, e.e. pryf moron sy'n ymosod ar foron, seleri, pannas a phersli. Mae malwod ar y llaw arall yn bwyta bron unrhyw gnwd planhigion. Lle tyfir nifer o wahanol gnydau, mae'n rhaid eu hamddiffyn rhag amrywiaeth eang o blâu

posibl ac felly mae'n hanfodol cael rhaglen integredig o reoli plâu. Mae ymosodiadau plâu yn tueddu i fod yn dymhorol gan amrywio o ranbarth i ranbarth. Gall deall eu hamser fod o gymorth i'w rheoli. Gall tyfwyr osgoi cyfnodau anterth mitotig, amddiffyn cnydau trwy roi gorchuddion drostynt, neu eu rheoli trwy ddefnyddio rheolyddion cemegol neu fiolegol. Mae rhagamcanion plâu pryfed, megis y *Pest Bulletin*, wedi eu seilio ar raglenni cyfrifiadurol sy'n defnyddio cofnodion tywydd i ragweld pryd mae plâu yn debygol o goloneiddio cnwd neu ddodwy eu hwyau.

## DYFODOL CYNHYRCHU LLYSIAU YNG NGHYMURU

Yn *Strategaeth Garddwriaeth Cymru* dadleuwyd y dylid datblygu'r maes gan roi sylw amlwg i'r farchnad. Dylid dangos cyfleoedd i gynhyrchwyr newydd, a rhai sydd eisoes wrthi, mewn cnydau newydd a mathau newydd ac mewn arbenigo, er enghraifft, mewn garddwriaeth

organig lle mae gan Gymru eisoes enw da, ac mewn cynhyrchu a marchnata perlysiu a niwtraciwticalau eraill.

### Plâu cnydau llysiau

#### Prif blâu

Pryfed cabaets	Cynrhon lledr
Llyngyr tatws	Malwod
Euon gwinwydd	Hoelion daear

#### Plâu llai

Pryfed hadau ffa	Pryfed moron
Chwilod y gerddi	Chwilen Colorado
Pryfed torri	Llyngyr annibynnol
Llau planhigion	Llau planhigion
Pryfed nionod	Nadroedd miltroed a chantroed
Sumphlids	Chwimwyfyn
Euon di-adain	Pryfed maip